## Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Lesley Griffiths AC
Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth

30 Mehefin 2014

Annwyl Weinidog

**Sesiwn craffu yn ystod y flwyddyn - cais am ragor o wybodaeth yn dilyn y cyfarfod ar 25 Mehefin**


Diolch am ddod i'n cyfarfod ar 25 Mehefin 2014 i roi tystiolaeth fel rhan o'n rhaglen craffu ar waith y Gweinidog yn ystod y flwyddyn. Yn ystod y sesiwn, gwnaethoch gytuno i ysgrifennu at y Pwyllgor gyda'r wybodaeth a ganlyn:

- nodyn ar y gwaith sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd mewn perthynas ag achosion pan fo un cyngor yn etifeddu diffyg gan gyngor arall wrth uno;
- rhestr o'r cynghorau cymunedol a'r cynghorau tref sydd wedi cael cyllid i sefydlu presenoldeb ar y we, a pha rai o'r cynghorau hyn sydd bellach â phresenoldeb ar y we;
- nifer y seddi ar gynghorau cymunedol a chynghorau sir sydd wedi bod yn wag yn hirdymor;
- dadansoddiad o'r ystadegau ar gyfer rhyw, oedran ac ethnigrwydd cynghorwyr sir, a dadansoddiad cymharol ar gyfer cynghorwyr cymunedol.

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol / Communities, Equality and Local Government Committee
Gwasanaeth y Pwyllgorau / Committee Service
Ffôn / Tel: 029 2089 8032
E-bost / Email : Pwyllgor.CCLlG@cymru.gov.uk

**Edrychaf ymlaen at glywed gennych yn fuan.**

**Yn gywir**



**Christine Chapman AC**
**Cadeirydd**